

Cyngor Cymuned Eglwys Bach - Cofnodion Cyfarfod 06/03/17

PRESENNOL: Cynghorwyr: Austin Roberts (Cadeirydd), Katherine Himsworth a John Emlyn Jones (cofnodwr), Gwyn Morris Jones (yn hwyrach)

YMDDIHEURIADAU: Cynghorwyr: Gwilym Williams, Gwyn Williams, John Lloyd Williams, Ceri Leeder ac Arthur Williams.

DATGAN DIDDORDEB: DIM

COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF: Gan nad oedd ond un cynghorydd yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf nid oedd yn bosib cadarnhau'r cofnodion.

MATERION YN CODI:

Pont Ffordd Bryn Hir- Mynegodd y Cadeirydd fod swyddogion y Cyngor Sir wedi paratoi adroddiad. Mae dau opsiwn wedi eu nodi yn yr adroddiad sef, cynllun tymor hir (£60,000) a chynllun tymor byr (£7,500). Yn dilyn cyfarfod gyda Mr Dyfed Rowlands, cafwyd ar ddeall y gobeithir dechrau ar y cynllun tymor byr Ebrill eleni. Bydd opsiwn 2 yn cael ei roi ar raglen y Cyngor Sir ar gyfer y dyfodol. Cafwyd ar ddeall fod y Cyngor Sir wedi anfon llythyr at y tirlfeddiannwr yn gorchymyn iddo dynnu'r giât mae wedi ei osod ar y bont gan y gallai achosi llifogydd.

Ymunodd y Cynghorydd Gwyn Morris Jones â'r cyfarfod.

Arwydd Canolfan Bwyd Cymru - Darllenodd y Cadeirydd lythyr a dderbyniodd gan Mr Ken Skates (Llywodraeth Cymru) yn datgan nad oedd caniatâd wedi ei roi ar gyfer arwyddion wedi eu goleuo. Mae swyddogion Ll C wedi ymchwilio ond heb weld arwyddion o'r fath.

Datganodd y Cynghorydd Katherine Himsworth ddiddordeb.

Cytunodd y Cadeirydd i fynd i dynnu llun o'r arwydd a'i anfon at Mr Skates.

Y Diffibrilydd - Nid oes caniatâd wedi ei roi eto ar gyfer gosod yr arwyddion.

Cronfa'r Cadeirydd - Nododd y Cadeirydd fod Pennaeth yr ysgol wedi datgan ei diolchgarwch am y siec o £100 tuag at adnewyddu'r toiledau. Mae hi'n ymddangos bod hanes y toiledau wedi cael sylw yn y Daily Post a'r Daily Mirror. Eglurodd y Cadeirydd y sefyllfa ariannol a nodwyd iddo gan y Pennaeth. Datganodd y Cynghorydd Gwyn Morris Jones ddiddordeb fel Cadeirydd is bwyllgor cyllid y Corff Llywodraethol.

Baw Cŵn. Nodwyd fod llythyr wedi mynd at yr adran briodol yn y Cyngor Sir. Derbyniwyd ateb yn dweud bod swyddogion yn monitro'r sefyllfa ac wedi nodi bod llawer o faw ger y toiledau. Gosodwyd arwydd ychwanegol a byddant yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

Ceisiadau Cynllunio - Gadael tan y cyfarfod nesaf (gw. isod)

Llwybr Troed Bryn Gwynt: Mae'r Cadeirydd wedi bod ar awdit ward gyda swyddog o'r Cyngor Sir yr wythnos diwethaf. Bydd y gwaith ar y llwybr yn cael ei gwblhau cyn diwedd y mis.

Taliadau -

Sue Hayward (glanhau toiledau Chwefror) £98
Neuadd Aberconwy £11 (hurio ystafell)
Swyddfa Archwilio Cymru £225 (Awdit allanol)
Yr Odyn £12 (hysbyseb swydd Clerc)
J E Jones £23.98 (inc a phapur argraffu)

Materion Priffyrdd - Cafwyd ar ddeall bod y materion a godwyd y tro diwethaf yn cael eu gwneud cyn diwedd y mis.

Cyfoeth Naturiol Cymru: Nid oedd y swyddog o Gyfoeth Naturiol Cymru yn gallu dod i'r cyfarfod mis yma. Cytunwyd i ofyn iddo ddod i'r cyfarfod ym mis Mai.

Arwydd Y Berllan - Nodwyd bod yr arwydd wedi ei ail osod.

Un Llais Cymru - Hysbysodd y Cynghorydd Katherine Himsworth y cyfarfod ei bod wedi cwblhau'r arolwg ar ran y Cyngor.

Parcio ar y Glaswellt ger y polyn fflag - Nododd y Cadeirydd ei fod wedi cael gair gyda swyddog o'r Cyngor Sir a bod posibilrwydd y caiff rhywbeth ei wneud i rwystro parcio yma.

Cytunwyd i alw cyfarfod brys ymhen yr wythnos i drafod cais cynllunio a ddaeth i law yn ddiweddar ac adroddiad ariannol.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf - Nos Lun Mawrth 13eg 2017 am 7:30 (cyfarfod brys)

Nos Lun Ebrill 3ydd 2017 am 7:30

Daeth y cyfarfod i ben am 8:50

Cyngor Cymuned Eglwys Bach - Cofnodion Cyfarfod Brys

13/03/17

PRESENNOL: Cyngorwyr: Austin Roberts (Cadeirydd), Katherine Himsworth, Gwyn Morris Jones, Gwyn Williams, John Lloyd Williams, Ceri Leeder, Arthur Williams. a John Emlyn Jones (cofnodwr). Gwilym Williams (yn ddiweddarach)

YMDDIHEURIADAU: DIM

DATGAN DIDDORDEB: Cyngorydd Gwyn Morris Jones - Ymneilltuodd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth am y cais cynllunio.

Ceisiadau cynllunio: 0/41645 Bodlondeb, Trofarth

Penderfynwyd: Nid oes gan y Cyngor wrthwynebiad i'r cais ond yn awgrymu bod y cynllunwyr yn ceisio sicrhau bod yr adeilad yn cydweddu gyda thai eraill yn y pentrefan a'r ardal o ran maint a deunyddiau adeiladu.

Ymunodd Y Cyngorwyr Gwilym Williams a Gwyn Morris Jones â'r cyfarfod.

Adroddiad Ariannol: - Cyflwynwyd adroddiad ariannol ar ffurf taenlen.

Cyfrif Cyfredol: £7056.68
Cyfrif Angladdau: £472.20
Cyfrif Cadw: £1918.93

Nodwyd bod angen sicrhau oddeutu £2,000 ar gyfer yr etholiad ym mis Mai ac arian hefyd ar gyfer atgyweirio'r drws rhwng y Fynwent â Chilgerran.

Penderfynwyd:

***Pwrcasu gliniadur a thaflunydd at waith y cleric a'r Cyngor (oddeutu £800).
Cyfraniad at Eisteddfod Gadeiriol Llanrwst £50
Ymuno ag Un Llais Cymru £61.50***

Trafodwyd y posibilrwydd o roi cyfraniad tuag at yr Ysgol er mwyn sicrhau bod ganddynt yr arian i gwblhau'r gwaith o adnewyddu'r toiledau. Datganodd y Cyngorydd Gwyn Morris Jones ddiddordeb.

Penderfynwyd: Gofyn i bennaeth yr ysgol am y sefyllfa ddiweddaraf parthed y gronfa ac i gynnal cyfarfod brys eto'r wythnos nesaf i drafod y mater hwn yn unig.

Cyngor Cymuned Eglwys Bach - Cofnodion Cyfarfod Brys **21/03/17**

PRESENNOL: Cynghorwyr: Austin Roberts (Cadeirydd), Gwyn Williams, John Lloyd Williams, Gwilym Williams, Arthur Williams. a John Emlyn Jones (cofnodwr)

YMDDIHEURIADAU: Cynghorwyr: Katherine Himsworth a Gwyn Morris Jones,

Darllenwyd llythyr a dderbyniwyd oddi wrth Mrs Nia Daly, Pennaeth Ysgol Eglwys Bach, yn amlinellu'r sefyllfa ariannol parthed y gronfa i adnewyddu toiledau'r ysgol a'r ymdrechion mae'r ysgol a'r rhieni wedi eu gwneud i godi arian. Roedd y cynghorwyr wedi derbyn copi o'r llythyr cyn y cyfarfod. Gwelwyd bod y gronfa yn £1,450 yn brin o gyrraedd y nod.

Penderfynwyd: Rhoi cyfraniad o £1,000 i'r ysgol gan nodi yn benodol mai at adnewyddu'r toiledau yn unig mae'r arian.

Ymunodd y Cynghorydd Ceri Leeder â'r cyfarfod.

Penderfynwyd: Trosglwyddo £2,000 o'r cyfrif cyfredol i'r cyfrif angladdau ar gyfer adnewyddu drws y fynwent petai raid a £150 o'r cyfrif cyfredol i'r cyfrif cadw pob tymor i sefydlu cronfa i bwrcasu diffibrilydd newydd pan fydd oes yr un presennol yn dod i ben.

Taliadau: £819.98 ar gyfer gliwiadur a thaflunydd
Capel Ebeneser (hurio ystafell am ddwy noson) £22